

COFNODION O'R CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 6 HYDREF 2021

Yn bresennol:	Y Cadeirydd Hefin Jones.
Y Cynghorwyr:	A. Huw Jones, Enid Roberts, Annest Smith.
Hefyd yn bresennol:	Elfed Roberts (Cynghorydd Sir), Karen Hughes (Swyddog Ariannol).
Ymddiheuriadau:	Elfed Wyn ap Elwyn, Richard Davies, Keith O'Brien, Dewi Williams, Idwal Williams.

Gan nad oes Clerc ar hyn o bryd cymerwyd y cofnodion gan y Swyddog Ariannol.

2187 – COFNODION

Cyflwynwyd, cadarnhawyd a llofnodwyd y cofnodion fel rhai cywir gan y Cadeirydd yn amodol ar faterion yn codi o gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Medi 2021.

2188 – MATERION YN CODI O'R COFNODION

1401(3b) – Garej Lôn – Mae y Cynghorydd Elfed Roberts wedi bod mewn cysylltiad pellach a'r Heddlu ond nid oes adroddiad pellach. Cytunwyd ysgrifennu i Liz Saville Roberts gan bod llythyr wedi ei anfon iddi yn 2017.

1774(4) Gardd Sylvia Crowe, Sgwar y Ddraig a'r Adeilad Man Gwyllo - Adroddwyd bod Magnox yn disgwyl adroddiad gan y pensaer o fewn pythefnos.

1842(2) a 1878(7) – Cyflymder a Goleuadau Stryd Bronaber – Y Cynghorydd Elfed Roberts wedi ymestyn gwahoddiad i Tim Barnes fynychu cyfarfod o'r Cyngor ond nid oes ateb wedi ei dderbyn. Yr oedd wedi cysylltu gyda'r Arolygydd Iwan Roberts o Uned Plismona Ffyrdd.

1962 (1) a 2138 - Adeiladau Cyhoeddus y Pentref – Adroddwyd bod y ddigwyddiad 'Stiwidio Stori' wedi ei ohirio and bydd Adrian Roberts yn cysylltu gyda mudiadau y pentref er mwyn cael eu barn.

2024 (4) Damweiniau ar ffordd A470/A4212 – Adroddodd y Cynghorydd Elfed Roberts bod y mater wedi ei drafod gyda'r Arolygydd Iwan Roberts o Uned Plismona Ffyrdd.

2068 (2) Mynwent Pen Cefn – Mae darn oddeutu 40m x 24m wedi ei farcio allan a cytunwyd cysylltu gyda chwmnïau i fesur dyfnder y tir. Cadarnhawyd bod Mr Marcus Smith wedi trin y gordyfiant a'r chwyn. Cytunwyd gofyn i Mr R B Williams am bris am dorri Rhan A a B dair gwaith y flwyddyn fel sydd yn cael ei wneud yn Rhan C yn dilyn cwynion bod y gwair yn tyfu yn uchel.

2085 (3) Llys Ednowain – Adroddwyd nad yw Traws-Newid wedi ymateb i'r llythyr yn gofyn am gopi o'r cyfrifon. Cytunwyd anfon llythyr pellach yn eu hatgoffa o'r gytundeb ac yn eu rhybuddio y bydd y Cyngor yn gofyn am ad-daliad o'r arian sydd wedi ei dalu iddynt. Mae Cadair View Lodge wedi cadarnhau y byddent yn anfon adroddiad ariannol i'r Cadeirydd.

2092 (4) – Parcio ger yr Ysgol – Adroddodd y Cynghorydd Elfed Roberts bod Iwan ap Trefor wedi derbyn swydd newydd a bydd cyfweiliadau i lenwi ei gyn swydd yn cael eu cynnal yn fuan. Mae Cyngor Gwynedd wedi cadarnhau y bydd y mater yn derbyn sylw unwaith y bydd swyddog newydd mewn lle.

2092 (6) Llysiâu'r Dial (Japanese Knotweed) – Adroddwyd bod Gwydion Wyn o'r Dref Werdd wedi ymweld a'r safleoedd dan sylw. Cytunwyd cysylltu ymhellach a gofyn os ydi yn bosib iddynt wneud y gwaith.

2099 (6) Marciau Gwyn – Adroddodd y Cynghorydd Elfed Roberts bod Iwan ap Trefor wedi derbyn swydd newydd a bydd cyfweliadau i lenwi ei gyn swydd yn cael eu cynnal yn fuan. Mae Cyngor Gwynedd wedi cadarnhau y bydd y mater yn derbyn sylw unwaith y bydd swyddog newydd mewn lle.

2107 (2) Dalgylch Ysgolion – Gorfodi plentyn fynd i dalgylch ysgol wahanol ar ol gadael Ysgol Gynradd. Y Cynghorydd Annest Smith am edrych dros e-bost diwethaf Cyngor Gwynedd.

2113 (1) Golau Stryd wrth y Toiledau Cyhoeddus – Y Cynghorydd Keith O’Brien wedi paratoi llythyr sydd wedi ei anfon ymlaen i Gyngor Gwynedd. Adroddwyd nad oes ateb wedi ei dderbyn. Cytunwyd cysylltu ymhellach gyda Cyngor Gwynedd.

2120 (3) Dwr yn llifo ar draws ffordd Penstryd a Pant Glas – Cadarnhaodd y Cynghorydd Annest Smith nad oes unrhyw waith wedi ei wneud i geisio gwella y sefyllfa ac os rhywbeth mae yn gwaethygu. Cytunwyd ail-anfon y lluniau a llythyr pellach i Gyngor Gwynedd.

2126 (3) Binau Halen – Adroddodd y Cynghorydd Elfed Roberts ei fod wedi trafod y mater ymhellach gyda Steffan Jones o Gyngor Gwynedd sydd yn awyddus i dreialu y syniad. Bydd yn trafod y mater gyda’r Cabinet. Hefyd bydd datganiad yn cael ei wneud am y binau halen o fewn pythefnos.

2150 (1) Stryd Gefn Bro Prysor (rhwng 1 a 6) – Cadarnhawyd bod y gwair wedi ei dorri. Adroddwyd bod ceir yn cael ei parcio unwaith eto ar y safle. Cytunwyd y dylid ysgrifennu i Adra a Liz Saville Roberts.

2161 (1) – Ffens gyferbyn cae chwarae yr ysgol/cae Dolwen – wedi dod yn rhydd ar y cylchau. Y Cynghorydd Elfed Roberts wedi derbyn cadarnhad gan Amanda Murray Cyngor Gwynedd mai yr Adran Addysg sydd yn gyfrifol am y ffens. Cytunwyd y dylid cysylltu gyda’r Adran Addysg.

2161 (2) – Cae o dan Bryn y Gofeb a’r wal derfyn – Cytunodd y Cynghorydd Dewi Williams i gael golwg ar y safle.

2161 (4) – Plinth Cof Golofn Heddwyn – Cytunwyd aros i Robert Williams wneud y gwaith.

2161 (7) Ymgymwrwr heb dalu anfoneb am gladdedigaeth ym Mynwent Pencefn – Adroddwyd bod siec wedi ei derbyn ond ni dderbyniwyd y dystysgrif werdd. Adroddodd y Swyddog Ariannol ei bod wedi anfon ebost i Gyngor Gwynedd ar y 19 Awst yn gofyn am gopiau o’r tystysgrifau gwyrdd ond nid oedd wedi derbyn ateb. Yr oedd wedi anfon ebost pellach ond hefyd heb dderbyn ateb. Cytunwyd y bydd yn rhaid i’r ymgymwrwr dalu o flaen llaw petai yn trefnu angladd yn y dyfodol.

2161 (8) – Llwybr o Stesion i Blaen Cwm – Mae y Cynghorydd Elfed Wyn ap Elwyn wedi cysylltu gyda David Jones o Awdurdod Parc Cenedlaethol Eyri ac wedi cysylltu ymhellach gyda Peter Rutherford. Nid oes ateb wedi ei dderbyn hyd yma. Maen’t wedi nodi bod Hen Bont Bwlch Gwyn angen ei thrwsio neu ei thynnu i lawr.

2161 (9) – Pergola Gardd Salem – Adroddwyd bod Beatrice Beale yn fodlon gwneud y gwaith plannu ond nid oes ganddi brofiad o osod pergola, felly, cytunwyd y byddai y Cyngor yn prynnu un a gofyn i Evan Thomas a’i Feibion am bris am ei osod.

2161 (10) – Hel Sbwriel – Cadarnhawyd bod ymgyrch codi sbwriel wedi ei drefnu ar y 23 Hydref rhwng 10 y bore a hanner dydd.

2161 (11) – Peintio meinciau Bryn y Gofeb a gwneud gwaith atgyweirio – Cadarnhawyd bod Alan Thomas wedi dechrau y gwaith.

2165 (2) Defaid yn crwydro – Yn dilyn y gwybodaeth a dderbyniwyd yn y cyfarfod ar y 1 Medi cadarnhawyd os yw anifeiliad yn creu difrod neu niwsans, yna y perchennog sydd yn gyfrifol am sicrhau nad ydynt yn crwydro.

2171 (1) Swydd y Clerc – Mae y swydd yn parhau yn wag ac nid oes unrhyw un wedi dangos diddordeb. Cytunwyd gwneud ymholiadau parthed y cyflog a'i drafod ymhellach. Adroddwyd bod y cyflog presennol yn seiliedig ar oddeutu 10 awr y mis o waith.

2176 (1) - Mynwent Pencefn – Cytunwyd ail-edrych ar y llythyr sydd i'w anfon i'r ymgymeryr. Cadarnhawyd bod y 2 hysbysfwrdd newydd wedi cyrraedd ond bod angen eu gosod.

2177(1) – Dewi Lake – Cytunwyd anfon llythyr o ddiolch i Dewi Lake ar ei ymddeoliad fel Pennaeth Ysgol y Moelwyn ar ddiwedd y tymor.

2177(4) – Parc Bryn Glas – Cadarnhawyd bod y gwaith o dorri y 2 goeden Fedwen sydd ar y safle mewn llaw.

2177(5) – Afon Prysor – graean wedi hel – Adroddodd y Cynghorydd Elfed Roberts bod Iwan Hughes o Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cadarnhau y bydd yn edrych ar y sefyllfa yn y dyfodol agos ond mae angen hawl gan Cyfoeth Naturiol Cymru i gasglu/clirio graen.

2184(1) - Fandaliaeth Cofeb Hedd Wyn – Adroddodd y Cadeirydd ei fod wedi gwneud datganiad i'r Heddlu a bod y lluniau o CCTV y Ganolfan Iechyd wedi ei rhoi ar wefanau cymdeithasol. Cytunwyd aros am adroddiad pellach gan yr Heddlu.

2184(2) – Safle We y Cyngor – Adroddwyd nad oes ateb wedi ei dderbyn gan Delwedd ond mae y safle we wedi ei diweddarau. Cytunwyd parhau gyda'r safle fel ag y mae ar hyn o bryd.

2184(3) – Mae y cyn Glerc wedi cadarnhau bod gwaith papur y Cyngor ganddi hi a cadarnhaodd y Cadeirydd ei fod am drefnu dyddiad i'w nol. Cytunwyd anfon llythyr o ddiolch iddi am ei gwasanaeth fel Clerc.

2184(4) – Rhiwgoch – Derbyniwyd ateb gan Nick Davies o Cadw yn datgan siom nad oes gwaith wedi ei ddechrau ar y safle ac yn awgrymu y dylai'r Cyngor gysylltu gyda Jane Jones a Jonathan Cawley o Awdurdod Parc Cenedlaethol yn gofyn os ydi'r Awdurdod yn cysidro unrhyw orfodiaeth. Cytunwyd cysylltu gyda'r ddau.

2184(5) – Canllaw stepiau llwybr cyhoeddus (Bryn Madog i'r ffordd osgoi) - Derbyniwyd ateb gan Swyddog Llwybrau Cyngor Gwynedd yn cadarnhau y bydd y gwaith yn cael ei wneud.

2184(6) – Gordyfiant ar y llwybr o amgylch y Llyn - Derbyniwyd ateb gan Swyddog Llwybrau Cyngor Gwynedd yn cadarnhau y bydd y gwaith yn cael ei wneud. Cytunwyd gofyn os yw yn bosib gosod arwyddion yn y pentref yn dangos y ffordd i'r llwybr gan bod amryw yn colli eu ffordd.

2184(7) – Ffens cae chwarae Bro Prysor – Adroddwyd bod cwmni Adra wedi cadarnhau gan bod y cae yn cael ei brydlesu i'r Cyngor Cymuned, cyfrifoldeb y Cyngor ydi cynnal y perimedr ac unrhyw osodiadau a ffitiadau. Cytunwyd cysylltu gyda Mr Andrew Williams a gofyn iddo drwsio y difrod.

2185(1) – Datblygu Tai Cymunedol – Gan nad oedd yn bosib i'r Cynghorydd Elfed Wyn ap Elwyn fynychu y cyfarfod cytunwyd gadael y mater tan y cyfarfod nesaf.

2185(2) – Cynllun Mentro - Gan nad oedd yn bosib i'r Cynghorydd Elfed Wyn ap Elwyn fynychu y cyfarfod cytunwyd gadael y mater tan y cyfarfod nesaf.

2185(3) – Torch Sul y Cofio – Cadarnhawyd bod 2 dorch wedi eu harchebu. Cytunodd y Cadeirydd i'w gosod ar Sul y Cofio.

2185(4) – Guto Ffowc - Gan nad oedd yn bosib i'r Cynghorydd Elfed Wyn ap Elwyn fynychu y cyfarfod cytunwyd gadael y mater tan y cyfarfod nesaf

2189 – GOHEBIAETH

- (1) Cymdeithas yr Iaith – cais i gefnogi'r alwad ar Lywodraeth Cymru i reoli'r farchnad dai – cytunwyd cefnogi.
- (2) Sioe Amaethyddol Traws yn dweud gan nad oedd yn bosib cynnal sioe 2020 ni fyddent yn rhoi cais am gymorth ariannol ym Mawrth 2021 – er gwybodaeth.
- (3) Cais cynllunio – Hendre Bryn Crogwydd Cwm Prysor – adeiladau pwll biswail newydd yn lle yr un presennol - cytunwyd derbyn a chefnogi y cais.
- (4) Cais cynllunio – Cae Coch - Codi adeilad amaethyddol / storfa (Ail gais) – cytunwyd derbyn a chefnogi y cais.
- (5) Ymgynghoriad ar drethi lleol ar gyfer ail gartrefi a llety hunanarlwyo – dyddiad cau 17.11.21 – Y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd i gwblhau.
- (6) Llywodraeth Cymru – Arolwg Cynghorwyr – dyddiad cau 29.10.21 – i'w anfon ymlaen i aelodau y Cyngor i gwblhau.
- (7) Un Llais Cymru – Cynhadledd Trethi Blyneddol Cymru – 3.11.21
- (8) Un Llais Cymru - Ymgynghoriad Adroddiad Blyneddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol – dyddiad cau Chwefror 2022 – i'w anfon ymlaen i aelodau y Cyngor i gwblhau.
- (9) Howard Huws – gwrthwynebu ceisiadau cynllunio ar sail perygl i'r Gymraeg – er gwybodaeth.
- (10) Un Llais Cymru - Ymgynghoriad Agored ar Ganllawiau Arfaethedig yn ymwneud ag "Egwyddorion Gweinyddu Da" a "Rheoli Cofnodion yn Dda"- dyddiad cau hanner nos 1 Tachwedd 2021- i'w anfon ymlaen i aelodau y Cyngor i gwblhau.

Gohebiaeth er gwybodaeth

- Un Llais Cymru – cadw Cymru'n daclus
- APCE – Dod yn Aelod o APCE
- Un Llais Cymru – sesiynau hyfforddi Medi/Hydref 2021
- Newyddlen Awel y Mor
- HWB – Rhaglen Dod yn ol at dy goed Hydref
- Un Llais Cymru - Cyhoeddi Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 15 newydd a Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio
- Newyddlen Gwybodaeth i Deuluoedd Gwynedd Medi 2021
- Un Llais Cymru – sesiynau hyfforddi Hydref 2021
- Cylchlythyr Wiserd

2190 – ADRODDIAD ARIANNOL

Cadarnhawyd a derbyniwyd yr adroddiad ariannol a gyflwynwyd gan y Swyddog Ariannol.

2191 - MATERION I'W TRAFOD AR Y PRYD

- (1) Rhieni yn pryderu am effaith garej Lon ar blant sydd yn mynychu y clwb brechwast gan fod y sefyllfa yn beryglus. Cytunwyd cynnwys y cwynion yn y llythyr i Liz Saville Roberts.
- (2) Perchennog Cae'n Cefn wedi adrodd bod y ffordd wedi ei difrodi gan injan dân yn ddiweddar a bod angen tynnu y wal i lawr er mwyn rhwystro hyn rhag digwydd eto. Adroddodd y Cynghorydd Elfed Roberts ei fod eisoes wedi cysylltu gyda Cyfoeth Naturiol Cyngor a Chyngor Gwynedd a'u bod wedi cadarnhau y bydd y gwaith angenrheidiol yn cael ei wneud. Mae hefyd wedi gadael i berchennog Cae'n Cefn wybod.
- (3) Adroddwyd bod mainc yn Sgwar y Pentref angen ei thrwsio. Cytunwyd gofyn i Alan Thomas wneud y gwaith.

2192 – MATERION AR GYFER Y CYFARFOD NESAF

- (1) Gwrych terfyn tir Troed y Rhiw a rhiw Pencefn.
- (2) Coeden Nadolig.

2193 – CYFARFODYDD YN YSTOD Y MIS

- (1) Is-bwyllgor Llwybrau – cynhaliwyd cyfarfod yn Bryn y Gofeb ar y 6 Hydref ac adroddwyd fod popeth mewn trefn. Cytunodd y Cynghorydd Enid Roberts i osod coeden rhosyn yn un o'r potiau blodau wrth y gofeb.
- (2) Is-bwyllgor Brys a Chynllunio - ceisiadau cynllunio yn ystod y mis –
Gosod cladding 6 Bro Islyn – derbyn a chefnogi y cais.
Gosod cladding 5 Maes Gwyndy – derbyn a chefnogi y cais.
Codi adeilad amaethyddol gyda storfa biswail danddaearol Tyddyn Mawr – derbyn a chefnogi y cais.

CYFARFOD NESAF - 3 Tachwedd 2021